# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Seddon Dental Implants,

Brynbuga

Dyddiad yr arolygiad: 9 Hydref 2017

Dyddiad cyhoeddi: 10 Ionawr 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78903-204-8



© Hawlfraint y Goron 2017

## Cynnwys


1. What we did ..... 5
2. Summary of our inspection..... 6
3. What we found ..... 7

   Quality of patient experience ..... 8

   Delivery of safe and effective care ..... 11

   Quality of management and leadership ..... 17
4. What next? ..... 20
5. How we inspect dental practices ..... 21

   Appendix A – Summary of concerns resolved during the inspection ..... 22

   Appendix B – Immediate improvement plan ..... 23

   Appendix C – Improvement plan ..... 24

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Pwyslais ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Seddon Dental Implants yn Rowan House, Llancayo Business Park, Llancayo, Brynbuga, NP15 1HY ar 9 Hydref 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir gwybodaeth bellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Canfuom fod y cleifion yn derbyn gwybodaeth fanwl ynglŷn â thriniaethau i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu gofal. Roedd gan y gwasanaeth brosesau priodol ar waith ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Canfuom fod y cofnodion cleifion yn drylwyr ac yn fanwl.

Gwnaethom argymell y gellid gwneud rhai gwelliannau i brosesau llywodraethu clinigol y gwasanaeth, gan gynnwys trefniadau gyda phractisau deintyddol y cynhelir triniaethau ynddynt, prosesau ar gyfer archwilio ac adolygiadau gan gymheiriaid.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd cleifion yn derbyn cynlluniau triniaeth manwl cyn derbyn gofal
- Arddangoswyd proses drwyadl gan y staff ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol
- Roedd gan y gwasanaeth amrediad eang o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i ategu'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen i'r gwasanaeth hwn gyflwyno system i alluogi cleifion i roi adborth
- Roedd angen cwblhau gwiriadau mwy rheolaidd o'r cyffuriau a'r offer a ddefnyddir mewn argyfwng
- Cyflwyno rhaglen o archwiliadau ac adolygiadau gan gymheiriaid
- Gwneud trefniadau llywodraethu clinigol y gwasanaeth gyda phractisau deintyddol y cynhelir triniaethau ynddynt yn ffurfiol, i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn amgylchedd diogel.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Seddon Dental Implants yn darparu triniaethau mewnblannu preifat mewn nifer o bractisau deintyddol ledled Cymru. Mae'r tîm yn Seddon Dental Implants yn teithio i bractisau deintyddol amrywiol ledled Cymru, ac yn defnyddio ystafelloedd triniaeth a chyfleusterau’r practisau deintyddol yr ymwelir â nhw i gynnal triniaethau mewnblannu.

At ddibenion yr arolygiad hwn, gwnaeth AGIC ymweld â phrif swyddfa Seddon Dental Implants. Fodd bynnag, ni ddarperir unrhyw wasanaethau deintyddol yn y lleoliad hwn. O ganlyniad, nid yw rhai meysydd o'r arolygiad yn berthnasol, ac fe adlewyrchir hyn o fewn yr adroddiad.

Mae'r tîm staff yn cynnwys un deintydd ac un nyrs ddeintyddol – y nyrs ddeintyddol yw'r rheolwr clinigol yn ogystal.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom ystyried profiad y claf trwy archwilio cofnodion cleifion, gwybodaeth a ddarperir i gleifion cyn ac ar ôl triniaeth a thrwy drafodaethau â staff, i sicrhau bod persbectif cleifion wrth wraidd ein dull arolygu.*

Canfuom fod cleifion yn derbyn gwybodaeth fanwl cyn cael triniaeth i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u gofal. Roedd gan y gwasanaeth brosesau priodol ar waith i sicrhau bod ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal mewn modd urddasol a phreifat.

Gwnaethom argymell y dylid rhoi proses ar waith i alluogi cleifion i roi adborth ar y gwasanaethau a ddarperir.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu safbwyntiau am y triniaethau deintyddol a ddarperid. Yn anffodus, nid oedd y gwasanaeth wedi gallu casglu holiaduron gan eu cleifion.

### Cadw'n iach

Disgrifiodd y staff y trefniadau ar gyfer darparu taflenni â gwybodaeth fanwl i'r cleifion yn ystod y broses ymgynghori, a oedd yn cynnwys cyngor o ran sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Yn ogystal, cynhwysid gwybodaeth ynghylch sut i gynnal iechyd ac ansawdd y mewnblaniadau deintyddol ar ôl y driniaeth.

### Gofal gydag urddas

Cawsom wybod bod cleifion yn cael cynnig apwyntiad preifat, naill ai yn berson neu dros y ffôn fel proses ymgynghori gychwynnol, gan alluogi cleifion i drafod unrhyw wybodaeth bersonol mewn modd urddasol.

#### Gwybodaeth i gleifion

Triniaethau mewnblannu deintyddol yn unig y mae Seddon Dental Implants yn eu cynnig i gleifion. Cadarnhaodd staff fod cleifion yn derbyn gwybodaeth fanwl yn ystod y broses ymgynghori ynghylch y driniaeth fewnblannu, a gwelsom fod y cynlluniau triniaeth yn cynnwys dadansoddiad o bris y driniaeth. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion wybodaeth fanwl ynglŷn â phris eu triniaeth.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom fod gan gleifion gynlluniau triniaeth ysgrifenedig manwl, a oedd yn amlinellu'r broses ar gyfer triniaethau mewnblannu er mwyn helpu cleifion i ddeall y broses a'u galluogi i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u gofal. Gwelsom fod y gwasanaeth yn gofyn am gydsyniad i driniaeth gan bob claf.

## Gofal amserol

Yn dilyn pob triniaeth, cawsom wybod bod yr holl gleifion yn derbyn manylion cyswllt y tîm deintyddol fel eu bod yn gallu cysylltu â nhw 24 awr y dydd, pe baent yn teimlo bod angen gofal brys arnynt.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion cleifion a chanfod bod tystiolaeth o gynllunio triniaethau ac opsiynau triniaeth wedi'u cofnodi a'u rhoi i gleifion i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth. Canfuom fod cleifion yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â sut i ofalu am eu mewnblaniadau ar ôl y driniaeth.

### Hawliau pobl

Gwnaethom nodi bod gan y gwasanaeth bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth neilltuedig ar waith. Mae hyn yn golygu bod y practis yn ymrwymo i sicrhau bod pawb yn cael mynediad at yr un cyfleoedd ac yr ymdrinnir â nhw yn yr un modd teg.

### Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y gwasanaeth weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion ynglŷn â sut i leisio pryder ar gael ar eu gwefan. Er mwyn sicrhau bod gan y cleifion fynediad hawdd a llawn at weithdrefn gwyno'r gwasanaeth, gwnaethom argymell y dylent roi copi o'r polisi i gleifion fel rhan o'u trafodaeth ymgynghori gychwynnol. Cytunodd y practis i drefnu hyn.

Er nad oedd y gwasanaeth wedi derbyn unrhyw gwynion, canfuom fod system addas ar waith i gofnodi ac ymdrin â chwynion ar lafar ac yn ysgrifenedig pe byddent yn cael eu derbyn.

Nid oedd gan y gwasanaeth ddull cyfredol ar gyfer casglu adborth gan gleifion. Gwnaethom argymell y dylai'r gwasanaeth gyflwyno system i alluogi cleifion i roi

adborth ar y gwasanaethau maent yn eu derbyn. Cytunodd y practis i drefnu hyn.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth roi proses ar waith sy'n galluogi cleifion i roi adborth ar y gwasanaethau a ddarperir.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y broses ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol yn drylwyr a bod prosesau priodol ar waith ar gyfer cludo offer deintyddol yn ddiogel rhwng prif swyddfa'r gwasanaeth a'r practis deintyddol yr ymwelir ag ef.

Roedd cofnodion y cleifion yn fanwl ac yn drylwyr.

Roedd angen gwiriadau mwy rheolaidd ar y cyffuriau a'r offer a ddefnyddir mewn argyfwng er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol.

Roedd angen i'r gwasanaeth gyflwyno proses ar gyfer cynnal adolygiadau clinigol gan gymheiriaid a gweithgarwch archwilio.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Er nad oedd y gwasanaeth yn gweld cleifion yn uniongyrchol yn ei brif swyddfa, canfuom fod trefniadau addas ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant y staff sy'n gweithio ac yn ymweld â'r safle.

Y practis ei hun oedd y swyddfa ganolog lle'r oedd y staff yn gweithio i gwblhau amrywiaeth o ddyletswyddau; roedd hyn yn cynnwys cwblhau tasgau gweinyddol a chynnal trafodaethau â chleifion dros y ffôn. Roedd hefyd yn fan canolog i storio cyflenwadau a chofnodion cleifion ac i lanhau offerynnau deintyddol.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o amgylch y brif swyddfa, a gwelsom fod yr offer hyn wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal ar gyfarpar trydanol yn y brif swyddfa o fewn y 12 mis diwethaf, i helpu i sicrhau bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio.

Cawsom wybod bod gwastraff peryglus (clinigol) fel arfer yn cael ei waredu yn lleoliad y practis yr ymwelir ag ef. Fodd bynnag, gwelsom fod cytundeb ar waith ar gyfer cludo a gwaredu â gwastraff peryglus a gwastraff domestig a gynhyrchir yn dilyn sterileiddio offerynnau deintyddol ym mhrif swyddfa'r gwasanaeth mewn modd diogel.  Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel wrth iddo aros i gael ei gasglu gan y cwmni contractio.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd y gwasanaeth yn glanhau ac yn sterileiddio eu hoffer deintyddol eu hunain, ac roedd ganddynt ystafell ddadheintio a oedd wedi'i chyfarparu'n dda ac yn bodloni'r egwyddorion a amlinellir yn nogfen polisi a chyfarwyddyd Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1)[1].

Roedd yr offer dadheintio a'r cypyrddau yn yr ystafell ddadheintio i'w gweld mewn cyflwr da. Roedd arwynebau gwaith a'r llawr yn hawdd eu glanhau er mwyn hwyluso glanhau trwyadl a lleihau croes-heintio.

Roedd gan y practis y defnydd o un awtoclaf[2] a gwelsom dystysgrif archwilio i ddangos ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Roedd y gwasanaeth yn defnyddio bath uwchsonig[3] yn ddull glanhau cyn sterileiddio. Er bod y rhan fwyaf o wiriadau yn cael eu cynnal a'u cofnodi, gwnaethom argymell y dylai'r gwasanaeth gynnwys prawf ffoil fel rhan o'u gwiriadau i sicrhau bod yr offer yn gweithio'n iawn. Dywedodd y rheolwr clinigol wrthym eu bod wedi nodi hyn cyn yr arolygiad a'u bod wedi archebu pecynnau profion ffoil i'w cynnwys yn eu

---

[1]Mae’r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

[2] Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf, a ddefnyddir i sterileiddio cyfarpar a chyflenwadau, drwy eu trin ag ager dirlawn ar bwysedd uchel.

[3]Darn o offer yw bath uwchsonig a ddefnyddir ar gyfer glanhau wrth anfon dirgryniadau uwchsonig trwy'r hylif sydd ynddo.

gwiriadau. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal a bod llyfrau lòg yn cael eu cadw – fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 – o brofion ar offer glanhau a sterileiddio, i ddangos eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio.

Dangoswyd proses ddadheintio drylwyr, a gwelsom dystysgrifau i ddangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio. Roedd yr offer yn cael eu cadw mewn bagiau wedi'u selio er mwyn atal croes-heintio.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth broses ddiogel a phriodol ar waith ar gyfer cludo offer glân a budr rhwng eu prif swyddfa a phractisau deintyddol yr ymwelir â nhw.

Nid oedd y gwasanaeth yn cwblhau archwiliadau rheolaidd o reoli heintiau i nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu fel rhan o'r gwaith monitro cyffredinol ar gyfer sicrhau ansawdd. Gwnaethom argymell y dylai'r gwasanaeth gyflwyno archwiliad o'u trefniadau rheoli heintiau, a gwnaethant gytuno i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau eu bod yn cwblhau profion ffoil ar y bath uwchsonig fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Mae angen i'r gwasanaeth gwblhau archwiliadau rheolaidd o'u trefniadau rheoli heintiau fel rhan o'u gwaith monitro ansawdd.

### Rheoli meddyginiaethau

Dywedodd y gwasanaeth wrthym fod offer a chyffuriau ar gael i'w defnyddio mewn argyfwng claf (llewyg/cwymp). Ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd yn bosibl i ni weld na gwirio a oedd y cyffuriau a'r offer yn unol ag argymhellion y Cyngor Dadebru (DU), oherwydd bod y pecyn gyda'r deintydd i ffwrdd o'r safle. Gwelsom fod gan y gwasanaeth broses ar waith ar gyfer gwirio cynnwys a dyddiadau dod i ben y cyffuriau a'r offer a ddefnyddir mewn argyfwng yn y pecyn. Gwnaethom argymell y dylai'r gwasanaeth sicrhau bod gwiriadau ar yr offer dadebru yn cael eu cynnal yn fwy rheolaidd, yn unol â'r safonau a

amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU)[4], er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai eu hangen. Cytunodd y practis i drefnu hyn.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd o fewn y 12 mis diwethaf. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod y gwasanaeth wedi penodi ac wedi hyfforddi swyddogion cymorth cyntaf pe bai eu hangen.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi ar y cyffuriau a’r offer a ddefnyddir mewn argyfwng yn unol â'r canllawiau a amlinellir gan Gyngor Dadebru'r DU.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gan y gwasanaeth weithdrefn ar waith i hyrwyddo ac amddiffyn llesiant plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sydd mewn perygl, a gwelsom dystysgrifau'n cadarnhau bod staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn oedolion. Nid oedd yn bosibl i ni weld tystysgrifau wedi'u diweddaru ar gyfer hyfforddiant mewn amddiffyn plant. Gwnaethom argymell y dylai'r gwasanaeth sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant amddiffyn plant yn unol ag argymhellion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Cytunodd y practis i drefnu hyn.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn plant yn unol ag argymhellion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

[4] Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithrediad.

Nid oedd y gwasanaeth yn defnyddio cyfleusterau pelydr-X ar y safle, ac felly ni ystyriwyd y maes hwn yn ystod yr arolygiad. Pan fydd angen sganiau pelydr-X ar gleifion, cawsom wybod y bydd naill ai offer pelydr-X y practis deintyddol yr ymwelir ag ef yn cael eu defnyddio, neu caiff atgyfeiriad ei wneud i ddarparwr allanol ar gyfer sgan pelydr-X.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod y staff wedi diweddaru eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio, a'u bod yn bodloni'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Lle'r oedd sganiau pelydr-X wedi'u cynnal, gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delwedd sganiau pelydr-X wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd fel rhan o'r gwaith monitro ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth gynnal sganiau pelydr-X, ac yn dangos lle y dylid gwneud gwelliannau os oes angen.

Ar wahân i'r ardal ddadheintio, nid oedd gan y gwasanaeth unrhyw gyfleusterau clinigol eraill ar y safle, ac felly nid ystyriwyd unrhyw feysydd eraill yn ystod yr arolygiad.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod y practis wedi cynnal amrediad cyfyngedig o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r triniaethau a ddarperir i gleifion. Gwnaethom argymell y dylai'r gwasanaeth ehangu'r amrediad o archwiliadau clinigol ac anghlinigol fel rhan o'u gweithgarwch gwella ansawdd. Cytunodd y practis i drefnu hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth gynnal amrywiaeth o archwiliadau clinigol ac anghlinigol gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella fel rhan o weithgarwch y gwasanaeth i wella ansawdd. Dylid datblygu a monitro cynlluniau gwella fel bo'n briodol.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Nid oedd gan y gwasanaeth broses ar waith ar gyfer adolygiadau gan gymheiriaid[5] a fyddai, o bosibl, yn cefnogi'r staff i ddatblygu'r broses o wella arferion. Gwnaethom argymell y dylai'r gwasanaeth gyflwyno proses ar gyfer cynnal adolygiadau gan gymheiriaid fel modd o nodi meysydd i'w gwella. Cytunodd y practis i drefnu hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth weithredu proses ar gyfer cynnal adolygiadau clinigol gan gymheiriaid.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu storio a'u cadw ar bapur ac yn electronig, a chanfuom fod prosesau addas ar waith i sicrhau bod diogelwch gwybodaeth yn cael ei gynnal. Roedd gan y gwasanaeth broses ar waith i roi copi o nodiadau'r cleifion i'w deintydd, gan sicrhau bod deintydd y cleifion yn ymwybodol o unrhyw driniaeth a gwblhawyd.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y gwaith o gadw cofnodion. Roedd y nodiadau a wnaed yn fanwl ac yn dangos bod gofal a thriniaeth wedi cael eu cynllunio er mwyn hyrwyddo diogelwch a lles cleifion.

---

[5] Mae adolygu gan gymheiriaid yn un o'r safonau aur mewn meysydd gwyddonol, sef proses sy'n caniatáu i weithwyr proffesiynol gofal iechyd ('cymheiriaid') werthuso ansawdd gwaith gweithwyr proffesiynol eraill. Gwneir hyn gyda'r nod o sicrhau bod eu hymarfer yn drylwyr, ac yn manteisio ar ymchwil flaenorol gyda'r bwriad o ddarparu'r gofal a thriniaethau gorau posibl.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat a'r safonau proffesiynol perthnasol.*

Gwelsom fod ystod o bolisïau a gweithdrefnau wedi eu sefydlu, sydd â'r nod o sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Gwelsom fod gan y staff fynediad at amrediad o gyfleoedd hyfforddiant i'w cefnogi yn eu rolau.

Gwnaethom argymell y dylai'r gwasanaeth gryfhau eu trefniadau llywodraethu clinigol gyda phractisau deintyddol y cynhelir triniaeth ynddynt.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Seddon Dental Implants yn darparu triniaethau mewnblannu ar gyfer cleifion mewn practisau deintyddol yr ymwelir â nhw ledled Cymru. Nid oes gan y gwasanaeth ddeintyddfa yn ei brif swyddfa.

Nid oedd gan y gwasanaeth broses ffurfiol ar waith ar gyfer ceisio sicrwydd gan bractisau deintyddol y cynhelir triniaethau ynddynt bod offer, ystafelloedd triniaeth, mesurau diogelwch tân, trefniadau ar gyfer gwastraff clinigol ynghyd â threfniadau eraill, yn briodol ac yn ddiogel i'w defnyddio.  Fel rhan o'u trefniadau llywodraethu clinigol, gwnaethom hysbysu'r gwasanaeth ei bod yn rhaid iddynt gyflwyno prosesau addas gyda'r practisau deintyddol yr ymwelir â nhw i geisio sicrwydd bod trefniadau ar gyfer meysydd fel offer, gwastraff clinigol, diogelwch tân a rheoli risgiau cyffredinol ar waith. Mae angen i'r gwasanaeth geisio cyngor priodol ar yr holl feysydd lle mae angen sicrwydd. Dywedodd y gwasanaeth wrthym fod prosesau anffurfiol ar waith, ond gwnaethant gytuno i wneud y prosesau hyn yn ffurfiol.

Roedd y prif ddeintydd yn derbyn cymorth gan y rheolwr clinigol, a oedd yn gyfrifol am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Roedd y rheolwr clinigol hefyd yn rhoi cymorth nyrsio deintyddol i'r prif ddeintydd. Pan welsom feysydd y gellid

eu gwella, roedd rheolwr y practis yn dangos parodrwydd ac ymrwymiad i fynd i’r afael â’r meysydd hynny yn brydlon.

Fel tîm o ddau ar y pryd, cawsom wybod bod cyfathrebu o fewn y tîm yn anffurfiol a bod trafodaethau'n cael eu cynnal ynglŷn â'r gwasanaeth bob dydd. Cawsom wybod bod y gwasanaeth yn y broses o recriwtio aelodau newydd o staff ac y byddent yn gwneud trefniadau ar gyfer cyfarfodydd tîm mwy ffurfiol yn y dyfodol.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth brosesau priodol ar waith ar gyfer recriwtio’n ddiogel. Canfuom fod rhaglen ymsefydlu ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff. Gwnaethom argymell y dylai'r rhaglen ymsefydlu gael ei hymestyn i gynnwys trefniadau ymsefydlu ffurfiol ym mhob practis deintyddol yr ymwelir ag ef y mae disgwyl i'r aelod newydd o staff weithio ynddo, er mwyn helpu i sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r trefniadau gweithio ym mhob practis deintyddol y cynhelir triniaethau ynddynt. Cytunodd rheolwr y practis i weithredu hyn.

Roedd rheolwr y practis wedi cyflwyno system yn ddiweddar i sicrhau y cynhelir cyfarfodydd tîm misol yn rheolaidd o hyn ymlaen.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r gwasanaeth wneud eu trefniadau llywodraethu clinigol gyda’r practisau deintyddol y cynhelir triniaethau ynddynt yn ffurfiol, i sicrhau eu bod yn gweithredu mewn amgylchedd diogel er mwyn hyrwyddo diogelwch a llesiant y staff a’r cleifion.

Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod eu rhaglen sefydlu ar gyfer aelodau newydd o staff yn cynnwys trefniadau ar gyfer practisau deintyddol yr ymwelir â hwy.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi.

Er nad oedd archwiliadau'n rhan o drefniadau rheoli'r gwasanaeth ar y pryd, cawsom wybod y bydd archwiliadau'r cael eu cynllunio'n briodol gyda'r holl staff pan fydd y tîm yn ehangu.

Gwelsom fod y staff wedi’u cofrestru gyda’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i ymarfer ac roedd yswiriant indemniad ar waith.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi eu himiwneiddio rhag Hepatitis B, er mwyn amddiffyn cleifion a’r staff eu hunain rhag cael eu heintio.

Roedd y deintydd yn darparu triniaethau deintyddol preifat yn unig, a chawsom wybod ei fod yn mynd â'i dystysgrif cofrestriad AGIC gydag ef i bob practis deintyddol yr ymwelir ag ef a'i fod yn ei harddangos wrth gwblhau triniaethau, fel sy'n ofynnol dan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Roeddem yn gallu cadarnhau bod y deintydd wedi cofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat.

Gwelsom fod gan y deintydd dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith, fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon dybryd yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rydym yn rhoi rhybudd cyn cynnal arolygiad o bractis deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei roi i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd unrhyw ddeintydd yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011 <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made>. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 <http://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/3232/contents/made>, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/contents/made>, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis 'Safonaur Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol <https://www.gdc-uk.org/professionals/standards>.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol ar ein gwefan.

## **Atodiad A** – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon dybryd a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Seddon Dental Implants

## Dyddiad yr arolygiad: 9 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (llythrennau bras):

## Swydd:

## Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Seddon Dental Implants

## Dyddiad yr arolygiad: 9 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Mae angen i'r gwasanaeth gyflwyno system sy'n galluogi cleifion i roi adborth ar y gwasanaethau a ddarperir. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliad 14(2) | Mae arolwg ôl-driniaeth cleifion yn cael ei lunio. Y gobaith yw y bydd fersiwn ddiogel, ar-lein wedi'i hamgryptio o hwn.<br>Yn ogystal, bydd gan yr ohebiaeth esboniadol a atodir i gynllun triniaeth y claf baragraff wedi'i ychwanegu yn hysbysu'r cleifion ein bod yn croesawu eu hadborth ac yn darparu ffordd iddynt wneud hyn. | Ian Seddon | 4 mis |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod prawf ffoil yn cael ei gynnal ar y bath uwchsonig fel yr argymhellir gan y Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 (3)(b), 14(4) ac 14(5)<br>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 Pennod 15 15.6 – 15.12 yn gynhwysol | Bydd polisi'n cael ei greu, yn dilyn y canllawiau ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ar gyfer cynnal, cofnodi ac archwilio profion ffoil ar y bath uwchsonig.<br>Bydd dogfen llyfr lòg uwchsonig yn cael ei chreu, a bydd pecyn prawf ffoil a wats amseru'n cael eu prynu.<br>Bydd aelod dynodedig o staff yn gyfrifol am gwblhau'r profion ar adegau penodedig, ac am gynnal y llyfr lòg.<br>Bydd aelod arall o staff yn gyfrifol am archwilio'r profion yn rheolaidd, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a pherfformiad boddhaol y bath uwchsonig. | Noemi Frank | 3 mis |
| Dylai'r gwasanaeth gwblhau archwiliadau rheolaidd o'u trefniadau rheoli heintiau fel rhan | Rheoliadau Deintyddiaeth | Bydd y polisi sicrwydd ansawdd yn cael ei ddiwygio i gynnwys archwiliad o'r | Ian Seddon | 3 mis |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| o'u gwaith monitro ansawdd. | Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14(2) | trefniadau rheoli heintiau ar adegau rheolaidd.<br><br>Bydd polisi rheoli heintiau'n cael ei greu i asesu'r trefniadau cyfredol yn erbyn y canllawiau cyfredol, bob chwe mis.<br><br>Bydd hyn yn ein galluogi i adolygu ein trefniadau ac i ystyried a oes angen newidiadau i'n prosesau, neu a ydynt yn ddymunol.<br><br>Os oes unrhyw anghenion hyfforddiant staff yn cael eu cofnodi, yna bydd newidiadau'n cael eu gwneud i'w cynllun datblygiad personol a'r hyfforddiant gofynnol a ddarperir. | | |
| Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi ar y cyffuriau a'r offer brys yn unol â'r canllawiau a amlinellir gan Gyngor Dadebru'r DU. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14 (2) ac 14 (3)(b) | Bydd rhestr wirio ar gyfer cyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn argyfwng yn cael ei chreu.<br><br>Bydd y polisi cyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn argyfwng yn cael ei adolygu i sicrhau bod yr amlder gwirio cywir yn cael ei gynnwys.<br><br>Bydd cronfa ddata'r practis yn cael ei | Ian Seddon | 4 mis |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | huwchraddio i gynnwys cofnod o ddyddiadau dod i ben yr holl gyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng, gan fonitro'r dyddiadau dod i ben yn ddyddiol a darparu adroddiad i unigolion penodedig pan fydd cyffuriau'n agos i'w dyddiadau dod i ben.<br><br>Bydd aelod o'r tîm yn cael ei benodi a'i enwi'n gyfrifol am gwblhau'r gwiriad. Bydd amser a dyddiad y gwiriad yn cael eu cofnodi ar y gronfa ddata, ynghyd â'r canlyniadau. Bydd y gronfa ddata'n monitro amlder y gwiriad ac yn dweud wrth yr unigolyn penodedig pryd y mae angen cwblhau gwiriad.<br><br>Bydd proses archwilio'n cael ei chreu i sicrhau bod yr holl wiriadau wedi'u cyflawni, i adolygu canlyniad y gwiriad ac i weld a oes angen newidiadau i'r broses. | | |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant amddiffyn plant yn unol ag argymhellion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) | Bydd holl gofnodion datblygiad proffesiynol parhaus a chynllun datblygiad personol y staff yn cael eu | Clare Seddon | 3 mis |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14 (2) | cadw ar borth canolog.<br><br>Byddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn unol ag argymhellion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, o ran pynciau allweddol/craidd y cynllun datblygiad personol ac o ran nifer y cynlluniau datblygiad personol a gyflawnir.<br><br>Lle nad yw pynciau craidd yn gyfredol, bydd trefniadau'n cael eu gwneud i staff dderbyn yr hyfforddiant. | | |
| Dylai'r gwasanaeth gyflwyno amrediad o archwiliadau clinigol ac anghlinigol gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella fel rhan o waith gwella ansawdd y practis. Dylid datblygu a monitro cynlluniau gwella fel bo'n briodol. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd<br><br>Rheoliad 14 (2) | Bydd cyfarfod tîm yn cael ei gynnal i benderfynu ar yr archwiliadau clinigol ac anghlinigol i'w cynnal dros y 12 mis nesaf, a pha aelod o'r tîm fydd yn gyfrifol am bob archwiliad.<br><br>Bydd cynllun ar gyfer pob archwiliad yn cael ei greu gan yr aelod hwnnw o'r tîm, a bydd y cynllun yn cael ei adolygu gan y tîm.<br><br>Unwaith y cynhelir yr archwiliad, bydd yr aelod cyfrifol yn adrodd yn ôl i'w dîm, a bydd y tîm yn adolygu ac yn myfyrio | Staci Burns | 3 mis |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | dros y canlyniadau ac yn awgrymu newidiadau.<br>Yna, bydd unrhyw newidiadau'n cael eu cyflwyno yn unol â'r cynllun gwella. | | |
| Dylai'r practis weithredu proses ar gyfer cynnal adolygiadau clinigol gan gymheiriaid. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 (2) | Bydd proses adolygu clinigol gan gymheiriaid yn cael ei datblygu.<br>Bydd y meini prawf i'w hadolygu yn cael eu hystyried a'u hamlinellu ar gyfer y 12 mis nesaf a bydd cynllun yn cael ei greu.<br>Yna bydd proses adolygu clinigol gan gymheiriaid i'w dilyn, yn unol â'r cynllun<br>Yn dilyn adolygiad, bydd y canlyniad yn cael ei ddadansoddi, a bydd unrhyw newidiadau sydd eu hangen i wella canlyniadau clinigol yn cael eu hystyried. | Ian Seddon | 6 mis |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Rhaid i'r gwasanaeth wneud eu trefniadau llywodraethu clinigol gyda'r practisau y cynhelir | Rheoliadau Deintyddiaeth | Bydd y thema hon yn cael ei hystyried mewn arolygiadau yn y dyfodol. | Staci Burns | 6 mis |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| triniaethau ynddynt yn ffurfiol, i sicrhau eu bod yn gweithredu mewn amgylchedd diogel i hyrwyddo diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. | Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd<br><br>Rheoliad 14 (2) | Bydd polisi'n cael ei greu i'n galluogi i asesu'r amgylchedd yn y practisau yr ymwelir â hwy.<br><br>Bydd cynllun yn cael ei lunio i'n galluogi i gasglu data o'r practisau.<br><br>Bydd cofrestr o'r practisau yr ymwelir â nhw’n cael ei chreu.<br><br>Bydd y data'n cael ei adolygu mewn cyfarfod tîm, a bydd cynllun gweithredu'n cael ei greu i ymdrin ag unrhyw feysydd lle mae angen i’r practisau yr ymwelir â nhw wella.<br><br>Bydd dyddiad adolygu'n cael ei bennu ar gyfer pob practis. | | |
| Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod eu rhaglen ymsefydlu ar gyfer aelodau newydd o staff gynnwys trefniadau ar gyfer practisau deintyddol yr ymwelir â nhw. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14 (2) | Bydd y rhaglen ymsefydlu'n cael ei diwygio i gynnwys trefniadau ar gyfer practisau yr ymwelir â nhw. | Clare Seddon | 3 mis |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):Ian Seddon**

**Swydd:** **Cyfarwyddwr Clinigol**

**Dyddiad:**22 Tachwedd 2017